

GWAREDIGAETH O FYD TYWYLLWCH

Nodyn i'r siaradwr:

Helpwch y gynulleidfa i sylweddoli fod y byd hwn yn ddwfn mewn tywyllwch ysbrydol, er gwaethaf cynnydd gwyddoniaeth ac adnoddau materol. Pwysleiswch yr angen i dderbyn gwybodaeth goleuni'r gwirionedd a'i roi ar waith. Anogwch nhw i werthfawrogi holl ddarpariaethau Duw

MAE LLAWER O'R FARN FOD Y BYD MODERN YN OLEUEDIG (2 fun.)

Gwelwyd cynnydd mawr (ym myd gwyddoniaeth a thechnoleg) yn ystod y ganrif ddiwethaf

Safonau byw yn codi, cludiant, cyfathrebu a gofal iechyd yn gwella (g93 6/8 19)

Daeth pawb yn ymwybodol o hawliau dynol

Parhau i ehangu mae'r ymchwil ym maes meddygaeth, amaethyddiaeth, gwyddoniaeth, technoleg, ac yn y blaen (w99 10/15 4-5; g89 7/22 10-12)

OND MAE'R FFEITHIAU'N DANGOS FOD Y BYD MEWN TYWYLLWCH (8 mun.)

Er bod cynnydd yn digwydd o safbwynt pethau materol a gwyddonol, mae dirywiad moesol ac ysbrydol i'w weld (g99 12/8 7-12)

Mae ymddygiad oedd gynt yn cael ei ystyried yn wrthgymdeithasol ac yn ddrwg, heddiw yn cael ei dderbyn yn normal (2 Tim 3:1-5)

Mae anfoesoldeb rhywiol yn rhemp

Mae bod yn deyrngar i briod, caru'r teulu o'r galon, a pharch at fywyd oll ar drai

Pleser sy'n cael y flaenoriaeth

Mae tywyllwch ysbrydol wedi llyncu'r byd (w93 3/1 8-11)

Rhagfynegydd y byddai hyn yn dod i ran y mwyafrif mawr o drigolion daear (Eseia 60:2a)

Yr hyn mae gwledydd sy'n honni bod yn oleuedig wedi'u cynhyrchu yw anffyddiaeth, esblygiad a damcaniaethau ac athroniaethau sy'n croes-ddweud ei gilydd

Mae llawer â rhagfarn yn erbyn Duw; maen 'nhw'n cysylltu Duw a'r Beibl ag athrawiaethau afresymol crefydd yn gyffredinol

Mae rhai pobl yn credu ofergoelion a chwedlau, sy'n dangos bod eu meddyliau a'u gweithredoedd yn gnawdol, nid yn ysbrydol (Col 2:8)

Mae casineb wedi esgor ar ffanatigiaeth crefyddol, brawychiaeth, a thrais byd-eang

Mae amgylchiadau heddiw yn waeth hyd yn oed na'r hyn mae Paul yn ei ddisgrifio yn Effesiaid 4:17-19 (Darllenwch a chymhwyswch ar gyfer byd heddiw)

PWY SY'N GYFRIFOL AM DYWYLLWCH BYD HEDDIW? (5 mun.)

Awgryma'r Beibl mai "llywodraethwyr tywyllwch y byd hwn" sy'n gyfrifol (Eff 6:12)

Nid llywodraethau dynol mo'r rhain, ond pwerau ysbrydol anweledig sy'n dylanwadu ar ddyn a chenhedloedd (2Cor 11:14; Dat 12:9)

Y grym mwyafrif er drwg yw Satan, sy'n dallu meddyliau drwy gau athrawiaethau a chasineb (Gen 3:4, 5; 2Cor 4:4; 1Ioan 2:11; 3:10-12)

Fe sy'n gyfrifol am yr amgylchiadau mae Eseia yn eu disgrifio ym mhennod 60:2a (Darllen)

Ei amcan yw troi pawb oddi wrth Jehofah a'r gwirionedd (Job, penodau 1-2)

Mae dulliau cythreulig yn llwyddo i ddal y mwyafrif o bobl (1Ioan 5:19)

Y pwnc dadl sydd wrth wraidd y cyfan yw penarglwyddiaeth Jehofah (Ex 9:16)

PRYD DAW DIWEDD AR Y TYWYLLWCH BYD-EANG? (5 mun.)

Mae Gair Duw yn ein sicrhau y bydd y tywyllwch sy'n gorchuddio'r byd yn codi

Mae Jehofah wedi collfarnu gweithredoedd y tywyllwch sy'n nodweddu'r cenhedloedd (1Ioan 1:5)

Mi fydd yn gweithredu ei ddigofaint yn erbyn pawb sy'n parhau i rodio yn y tywyllwch (Eff 5:6)

Mae Seffaneaia yn rhoi darlun byw iawn o sut bydd Jehofah yn rhoi diwedd llwyr ar ddrygioni (Darllen Seffaneaia 1:14-18 a'i egluro'n gryno)

Mi fydd 'na dorri'r ddadl ynglŷn â phenarglwyddiaeth ar ddiwedd y drefn sydd ohoni, yn dilyn digwyddiadau a ragfynegydd yn yr Ysgrifurau (Math 24:7, 8, 12-14, 21; Dat 18:21; 19:19-21; 20:1, 2)

MEDRWCH DDOD ALLAN O DYWYLLWCH BYD A DOD I MEWN I OLEUNI DUW (20 mun.)

Yr un yw'r broffwydoliaeth a ragfynegodd y tywyllwch â'r un sy'n rhagfynegi fod gwaredigaeth i'w chael (Darllen Eseia 60:1, 2)

Mae'r wraig yn cynrychioli mam y 144,000 ysbryd-eneiniog (Gal 4:26)

Daeth i'r amlwg gan dywynnu goleuni o 1919 ymlaen (ip-2 303-6)

Rhodddwyd goleuni i'r cyfiawn (Salm 97:11)

Mae gweddill y 144,000 yn dal yn fyw ar y ddaear

Gweithreda'r Corff Llywodraethol fel "gwas" gyda'r cyfrifoldeb o ddsbarthu bwyd ysbrydol (Math 24:45-47)

Mae gwaredigaeth yn dibynnu ar gydnabod sianel Duw ar gyfer goleuedigaeth ysbrydol

Wrth inni bregethu, 'rydym yn adlewyrchu goleuni'r gwirionedd (Math 5:14-16; Rhuf 10:14b; Phil 2:15)

Mae'r newyddion da am y Deyrnas yn rhoi cyfle i bobl ddangos ai gwell ganddyn 'nhw'r gwirionedd na'r tywyllwch

Rhaid i unigolion "ddod at y goleuni" (Darllen Ioan 3:19-21)

Fe ddilynir ymateb ffafriol gan ail-alwad sy'n rhoi cyfle i drosglwyddo gwybodaeth bellach

Wrth gynnal astudiaeth Feiblaidd, daw cyfle i'r goleuni dreiddio i mewn

Mae Eseia 60:22 yn cael ei gyflawni 'nawr (Darllen)

Mae Jehofah yn sicrhau darpariaeth ddigonol/amserol ar gyfer goleuedigaeth drwy gyfarfodydd y gynulleidfa (Trafodwch yn gryno fudd a lles cyfarfodydd yr wythnos, gan ddangos pam mae angen pob un ar gyfer tyfiant ysbrydol)

Gwnaeth Paul gysylltiad rhwng cydymgynnull a dyfodiad dydd Jehofah sy'n prysur ddod (Heb 10:25; 2Pedr 3:10)

Un amod gwaredigaeth yw 'rhodio yn y goleuni' (Ioan 1:6, 7)

Rhaid ymrwnged â "gweithredoedd . . . y tywyllwch" (Eff 5:8-11)

Fedrwn ni ddim gweithredu felly a'r un pryd ddisgwyl cael ffafr Duw (1Cor 6:9, 10)

Mae gwaredigaeth hefyd ynghlwm wrth gyhoeddi enw Duw a'i fwriad (1Tim 4:16)

Mae cyfundrefn Jehofah wedi'i darparu i'ch helpu i ymateb i'r holl ofynion

YR HYN BYDD GWAREDIGAETH O DYWYLLWCH YN EI OLYGU I CHI (5 mun.)

Daw'r gorthrymder mawr yn fuan yn brofiad i'r byd tywyll hwn

Mae Jehofah yn addo amddiffyn ei bobl (Salm 91:14, 15; Diar 18:10)

O dan lywodraeth y Deyrnas daw diwedd ar dywyllwch, trais, distryw a dinistr (Eseia 60:18-20)

Bydd cyfiawnder yn ffynnu ac yn llenwi'r ddaear gyfan (Salm 37:11, 29; Eseia 60:21)

Ein gobaith yw goroesi diwedd byd y tywyllwch hwn

Os byddwn yn ffyddlon ac yn marw 'nawr, medrwn fod yn sicr y cawn ein hatgyfodi

Yna bydd pawb yn byw yn ngoleuni Teyrnas Dduw am byth (Ioan 17:3)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellir, a chadw at amser penodol pob adran. 'Does dim rhaid darllen na thrafod pob testun a grybwyllir)